

Marchogaeth

Marchogaeth yw'r sgil o farchogaeth, gyrru a rasio ar gefn ceffylau ar draws gwlad ac mae'n rhaid i'r marchog gael llawer o sgil a bod yn gallu canolbwyntio llawer iawn.

Syniadau i droi'ch gofod awyr agored yn arena dressage:

Gosodwch **farcwyr gyda rhif** (gallwch ddefnyddio bwcedi) i greu gofod er mwyn i'r plant ymarfer prancio'n egniol fel merlod gyda symudiadau fel codi'r penliniau'n uchel, cael y plant i drotian ar flaenau'u traed, cymryd camau hir i'r ochr, gwneud pirouettes, esgus carlamu.

Gan ddefnyddio **cerddoriaeth rythmig** anogwch y plant i stopio pan fyddwch yn stopio'r gerddoriaeth, gan blygu'u pennau fel ceffylau. Anogwch y plant i fynd yn groeslin o gornel i gornel ar draws canol yr arena. Ydyn nhw'n gallu symud yn gyflym ac yn araf?

Mae defnyddio geiriau gweithredol fel rhedeg / neidio / carlamu i ddisgrifio'r symudiadau mae'r plentyn yn eu gwneud wrth chwarae pob dydd yn rhan bwysig mewn datblygu iaith plentyn. Dyma'r cam cyntaf mewn cyfathrebu a deall geiriau. Mae paratoi cyfres o weithrediadau, megis **"codi'ch penliniau'n uchel a neidio i fyny ac i lawr"** yn debyg i gysylltu geiriau i ffurfio brawddegau syml. Pan fydd plant yn actio geiriau mewn rhigwm neu stori syml, maen nhw'n dod i ddeall ystyr y geiriau.



Beth am roi tro ar **Neidio Sioe**; gosodwch drawstiau isel / nwdls pwll wedi'u cydbwysu ar focsyc cardfwrdd neu raff i greu cyfres o neidiau isel. Peidiwch ag anghofio codi'r coesau'n uchel. Gallwch hyd yn oed wobrwyo gyda rosettes cartref am y neidio gorau. Am hwyl ychwanegol, beth am brofi hwn gyda cheffylau hobi cartref a defnyddio nwdls pwll.



Horsey Horsey - Geiriau

Horsey horsey don't you stop
Just let your feet go clippety-clop
Your tail goes swish and the wheels go round
Giddy up, we're homeward bound.

We're not in a hustle, we're not in a bustle
Don't go tearing up the road
We're not in a hurry, we're not in a flurry
And we don't have a very heavy load.

Mae hyn yn gyfle i: Ddatblygu symudiadau modur y plentyn - mae'n rhaid cael y sgiliau modur gros i reoli grwpiau mawr o gyhyrau sy'n symud rhannau o'r corff megis y bongorff, y breichiau a'r coesau. Mae'r cyhyrau mawr yn rhan o ddysgu sut i falansio gan mai'r grwpiau hyn o gyhyrau yw'r allwedd i reoli ystum y corff.